Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 29.03.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Carchardai AEM : Ymgynghoriad Statudol ar Raglen Arolygu Ddrafft 2021-22 a'r Fframwaith Arolygu Cysylltiedig** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi rhaglen arolygu ddrafft 2021-2022, a byddwn yn parhau i gefnogi Arolygiaeth Carchardai EM yn ei gwaith yng Nghymru.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Mae Estyn yn fodlon fod y mathau o sefydliad sy'n destun arolygiad yn cael eu cynrychioli'n briodol yn y rhaglen arolygu. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'r fethodoleg ddiwygiedig, sy'n cael eu hadnabod fel ymweliadau craffu (YCau) yn ystod y pandemig, a'r newid o ymweliadau craffu i fethodoleg arolygu lawn yn ystod diwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin.

Mae strwythur arfaethedig y rhaglen arolygu o'r dyddiad hwnnw yn briodol, gan dybio y bydd gostyngiad parhaus yn nifer yr achosion COVID-19. Gan gymryd mai dyna yw'r sefyllfa, byddwn yn parhau i gefnogi Arolygiaeth Carchardai EM yn ei gwaith yng Nghymru. Yn ystod ymarferion yng Nghymru, bydd ein tîm arolygu yn cytuno ag arolygwyr arweiniol Arolygiaeth Carchardai EM ar ddull adrodd priodol, sy'n ystyried y trefniadau sydd ar waith i gyflwyno addysg a hyfforddiant ym mhob carchar.